

Disgrifiad Swydd: Trysorydd

Mae'r Trysorydd yn swydd allweddol sy'n gyfrifol am reoli cyfrifon a chyllid y clwb.

Sut byddwch chi'n elwa o'r swydd?

- Ymdeimlad o hunan gyflawniad a rhoi yn ôl i'r gymuned
- Swydd allweddol yn eich cymuned
- Cwrdd â llawer o bobl o wahanol gefndiroedd
- Datblygiad gyrfa posibl / cyflogadwyedd gwell
- Potensial i dderbyn hyfforddiant ac ennill cymwysterau newydd
- Mewn swydd lle gallwch chi helpu i wella sefyllfa ariannol y clwb

I bwy y byddaf i'n atebol?

- Y Cadeirydd

Pwy fydd yn atebol i mi?

- Y casglwr ffioedd gemau/hyfforddiant ac ysgrifennydd codi arian y clwb

Yn ddelfrydol, bydd angen i chi fod:

- Yn drefnus - yn gallu cadw cofnodion ariannol cyfredol
- Yn fanwl wrth drin arian a sieciau
- Yn onest iawn
- Yn gallu ateb cwestiynau o natur ariannol mewn cyfarfodydd

Yr hyn y byddwch chi'n ei wneud:

- Gofalu am arian y clwb
- Cadw cofnodion ysgrifenedig manwl o'r holl gyfrifon a gwneud yn siŵr bod y clwb yn gweithredu o fewn y gyllideb flynyddol
- Mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- Cynnal cyfrif banc yn enw'r clwb
- Gweithredu fel un o lofnodwyr cynradd ar gyfrif y clwb (a phenodi 3 arall wedi'u cytuno gan y Pwyllgor)
- Paratowch balans blynyddol a thafleuni elw a cholled ar gyfer y cyfarfod cyffredinol blynyddol
- Casglu tanysgrifiadau a'r holl arian sy'n ddyledus i'r sefydliad
- Cysylltu'r clwb â chyrrff llywodraethu cenedlaethol / cynghreiriau a gweithio gyda'r Ysgrifennydd i gofrestru chwaraewyr
- Cadw cofnodion cyfoes o'r holl drafodion ariannol
- Sicrhau bod yr holl arian parod a sieciau yn cael eu rhoi yn brydlon yn y banc
- Talu biliau a chofnodi gwybodaeth, gan sicrhau bod arian yn cael ei wario'n iawn
- Rhoi derbynebau am yr holl arian sy'n cael ei dderbyn a chofnodi'r wybodaeth yma
- Adrodd yn rheolaidd i'r pwyllgor ac yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar sefyllfa ariannol y clwb
- Paratoi a threfnu archwiliad y datganiad cyfrifon diwedd blwyddyn
- Helpu i baratoi a chyflwyno unrhyw ddogfennau statudol sy'n ofynnol (e.e. Ffurflenni TAW, ffurflenni TWE ac YG, adroddiadau cymorth grant)
- Hyd yn oed os yw'r dyletswyddau hyn yn cael eu dirprwyo i swyddog proffesiynol, mae'r Trysorydd yn dal i fod yn gyfrifol yn y pen draw. Mater i'r Trysorydd yw sicrhau bod unrhyw waith dirprwyedig yn cael ei wneud yn gywir.

Faint o amser y bydd yn ei gymryd?

- Tua 2-3 awr yr wythnos, er y bydd hyn yn dibynnu ar natur eich clwb / sefydliad chwaraeon.

Hoffech chi ragor o wybodaeth? Croeso ichi gysylltu â:

(Rhowch fanylion cyswllt y Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd yma)